



**Adroddiad Blynyddol**  
y  
**Bwrdd Monitro Annibynnol**  
yng

**Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd**

ar gyfer Blwyddyn adrodd  
1 Medi 2016 – 31 Awst 2017

Cyhoeddwyd  
Ionawr 2018



*Monitro tegwch a pharch i bobl yn y ddalfa*

## TABL CYNNWYS

---

### Adrannau Rhagarweiniol

Adran	Pwnc	Tudalen
1	Rôl Statudol	3
2	Crynodeb Gweithredol	4
3	Disgrifiad o'r Sefydliad	5

### Adrannau Tystiolaeth

4	Diogelwch	6
5	Cydraddoldeb a Thegwch	7
6	Yr Uned Arwahanu a Gwahanu/Gofal	8
7	Llety (gan gynnwys cyfathrebu)	9
8	Gofal Iechyd (gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl)	10
9	Addysg a Gweithgareddau Eraill	11
10	Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethol a Chyflogaeth	12
11	Paratoi ar gyfer Ailsefydlu	13

	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol	14
	Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	15

### 1 RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

---

Mae Deddf Carchardai 1952 yn gofyn fod pob carchar yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan yn sefyll.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb penodol i:

- (1) ei fodloni ei hun fod y rheiny sydd wedi eu dal o fewn ei garchar yn derbyn triniaeth deg a thrugarog a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi at gael eu rhyddhau'n amrywiol a digonol.
- (2) rhoi gwybod yn brydlon am unrhyw bryder sydd ganddo i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n ei farnu'n briodol.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pha mor llwyddiannus yw'r carchar o ran cyrraedd y safonau a chyflawni'r gofynion sydd ganddo a pha effaith mae'r rhain yn ei chael ar y rhai sydd wedi'u carcharu yno.**

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i wneud y dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae hawl gan ei aelodau weld pob carcharor a phob rhan o'r carchar ac hefyd gofnodion y carchar.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar EM Caerdydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2016 i 31 Awst 2017. Mae tystiolaeth y Bwrdd Monitro Annibynnol yn deillio o'r arsylwadau a wneir ar ymweliadau, craffu cofnodion a data, cyswllt anffurfiol gyda charcharorion a staff, arolygon a cheisiadau'r carcharorion.

Prif farnau:

- O ganlyniad i broffesiynoldeb ac ymrwymiad y staff, medrai'r carchar gynnal amgylchedd o drefn dda a pherthnasoedd da yn gyffredinol, sy'n un o gryfderau'r carchar, er gwaethaf y prif heriau a ddisgrifir isod. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd cynlluniau ar waith i ymdrin â sawl un o'r problemau a ddisgrifir yn yr adroddiad; roedd arwyddion clir o newid ar y gweill ac roeddem yn hyderu y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein hadroddiad nesaf. (Gweler tudalennau 4, 5, 6, 7 a 9)
- Yn sgil y prinder staff, roedd y gyfundrefn wedi'i chyfyngu i raddau annerbyniol a oedd yn cael effaith sylweddol ar weithrediad y carchar ac effaith negyddol ar weithgareddau'n ymwneud ag adsefydlu, fel addysg, hyfforddiant a gwaith yr Uned Rheoli Troseddwr. (Gweler tudalennau 11 ac 13). Fodd bynnag, roedd cynlluniau cadarn ar waith i ddychwelyd at gyfundrefn o ddarpariaeth lawn erbyn diwedd y cyfnod adrodd.
- Nid oedd rhai agweddau ar letya yn bodloni'r safonau derbyniol ar gyfer gweddusrwydd. Roedd nifer o'r materion hyn yn gysylltiedig â chynnal a chadw, fel cawodydd annigonol, tra bod eraill yn faterion parhaus, fel y diffyg sgrinio o amgylch y toiledau yn y celloedd. Parhaodd y materion hyn er gwaethaf ymdrechion gorau'r Llywodraethwr o fewn y trefniadau cynnal a chadw cyfredol. Roedd prinder cit sylfaenol yn aml, fel dillad a dillad gwely, a oedd hefyd yn cael effaith negyddol ar safonau sylfaenol gwedduster. (Gweler tudalen 9)
- Roedd cynnydd mewn argaeledd cyffuriau synthetig, dan yr enw poblogaidd "sbeis", yn cyfateb â chynnydd mewn lefelau hunan-niwed, trais a'r defnydd o ataliaeth. (Gweler tudalen 6)

### **Prif Feysydd i'w Datblygu**

---

#### **I'R GWEINIDOG**

Adolygu lefelau'r adnoddau sydd ar gael i garchardai fel mater o frys. Roedd ein gwaith monitro'n nodi'n glir bod y lleihad yn y nifer o staff yn cyfateb â chyfundrefn a oedd yn gyfyngedig i raddau annerbyniol. Mae'r gyfundrefn hon wedi cael effaith nefyddol sylweddol ar adsefydlu ac yn cyfateb â chynnydd arwyddocaol mewn trais.

#### **I'R GWASANAETH CARCHARDAI**

Roedd materion sylweddol yn ymwneud ag adeilad y carchar a'i gyfleusterau, ac i bob golwg, nid oedd y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Ymddengys fod y gwaharddiad ar smygu wedi cynyddu'r defnydd o sylweddau niweidiol ac anghyfreithlon eraill.

#### **I'R LLYWODRAETHWR**

Roedd cynlluniau ar y gweill i ymdrin â nifer o'r problemau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn erbyn diwedd y cyfnod adrodd. Roedd arwyddion clir o welliant ar y gweill ac rydym yn croesawu'r newidiadau hyn.

### 3 DISGRIFIAD O'R SEFYDLIAD

---

Mae CEM Caerdydd wedi'i leoli yng nghanol y Ddinas. Carchar hyfforddi lleol Categori B ydyw, sy'n gwasanaethu De-ddwyrain Cymru a Chymoedd De Cymru yn bennaf, er bod nifer o garcharorion o garchardai yn Lloegr yn cael eu trosglwyddo iddo. Yn bennaf, mae'r carchar yn darparu ar gyfer carcharorion sydd â dedfrydau tymor byr, carcharorion ar remand a charcharorion sy'n aros am ddedfryd. Mae gan y carchar Llety Arferol Ardystiedig i 539 a chapasiti gweithredol o 820, gyda'r mwyafrif helaeth o gelloedd yn cynnwys dau garcharor. Agorwyd y carchar ym 1827 ac mae cyfran fawr o'r llety yn cynnwys tair adain Fictoraidd o hyd. O ganlyniad i raglen sylweddol o waith ailwampio ym 1996, agorwyd tair adain llety newydd. Mae'r carchar hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008 sy'n darparu 21 gwely.

Mae cyfundrefn arferol Caerdydd yn cynnwys addysg llawn amser, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar a chysiau hyfforddi. Mae uned ailsefydlu ar gael sy'n cynnig amrywiaeth o raglenni ymddygiad troseddol i garcharorion yn ogystal â chysiau seiliedig ar waith. Yn ogystal, mae uned dadwenwyno yn dal carcharorion tymor byr yn barod ar gyfer eu rhyddhau.

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o fewn y carchar. Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro sy'n darparu'r gwasanaethau iechyd; Gwasanaethau Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru sy'n darparu dysgu a sgiliau; a GeoAmey sy'n cynnal a chadw'r safle. Mae gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar ddarparwyr o'r tu allan i'r carchar yn cynnwys gwasanaethau tywys ac adsefydlu cymunedol. Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol, fel Ymddiriedolaeth St Giles a PACT, yn darparu gwasanaethau hefyd.

## B Adrannau tystiolaeth 4 – 11

---

### 4 DIOGELWCH

---

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd 4 farwolaeth yn y ddalfa. O'r rhain, roedd 3 o ganlyniad i achosion naturiol ac nid yw'r Ymholiad wedi'i chynnal ar gyfer y bedwaredd hyd yma. Dylid nodi fod y staff Gofal Iechyd wedi'u gwobrwyo am y gofal lliniarol a ddarparwyd i un dyn a fu farw yn y carchar.

Roedd cynnydd yn y nifer o ACCT a agorwyd; yn 2016, agorwyd 539 a hyd yma yn 2017, agorwyd 560.

Fis Ebrill 2017, cofnodwyd 12 achos o hunan-niwed ar yr Offeryn Data ar Hunan-niwed. Mewn cyfnod o 3 mis, cafwyd 71 o achosion ac mewn cyfnod o 6 mis, cafwyd 117 o achosion. Nodwyd bod cynnydd arwyddocaol yn y nifer o achosion a ddigwyddai bob dydd Mercher. Er na chafwyd unrhyw ymchwiliad penodol i'r rhesymau am hyn, awgrymwyd bod y cynnydd arwyddocaol hyn o bosib oherwydd bod y ffretur yn cael ei lledaenu ar ddydd Mercher, a bod staff yn cael eu hyfforddi ar un dydd Mercher bob mis a oedd yn arwain at gyfundrefn gyfyngedig.

Roedd gwrandawyr ar gael i'r holl garcharorion, ond roedd trosiant y carcharorion yng Nghaerdydd yn golygu bod angen canfod Gwrandawyr newydd yn aml, yn ogystal â'u hyfforddi. Roedd ffonau ar gael ar rai o'r adeiniau ar gyfer cysylltu â'r Samariaid, ond nid oedd pob un o'r rhain yn gweithio.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'r prosesau Derbyn yn 2016/2017. O ganlyniad, amlygwyd pryder yn ymwneud â charcharorion yn cael eu derbyn o'r Llysoedd yn Birmingham ac Exeter. Roedd siwrnai hir ar ôl y llys yn golygu nad oedd carcharorion weithiau'n cyrraedd yr adain noson gyntaf tan o leiaf 22.00 o'r gloch neu'n hwyrach. Yn fwy gadarnhaol, roedd y gefnogaeth noson gyntaf gan staff a chymheiriaid cynghori yn drylwyr ac yn empathig fel ei gilydd. Nodwyd, waeth pa mor hwyr ydoedd, fod asesiadau'n cael eu cynnal yn ofalus, ac yn cynnwys asesiadau'n gysylltiedig â hunan-niwed. Roedd hyn yn welliant oherwydd roedd hyn wedi'i nodi fel testun pryder yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd yn 2016.

Fis Mawrth 2016, daeth Caerdydd yn garchar dim smygu. Arweiniodd hyn at achosion o smygu sylweddau eraill yn cynnwys patsys nicotin, dail te a 'sbeis'. Nododd Aelodau'r Bwrdd fod yr ansawdd aer mewn nifer o'r adeiniau'n gwaethygu o ganlyniad i smygu sylweddau anghyfreithlon. Roedd carcharorion nad oeddynt yn smygu yn adrodd i'r Bwrdd, er eu bod wedi gallu rhannu cell gyda charcharor arall nad oedd yn smygu gynt, bellach nid oeddynt yn gallu cwyno am y carcharor oedd yn rhannu eu cell, er mwyn cael eu trosglwyddo i gell arall, pe baent yn smygu'n anghyfreithlon. Cyflwynwyd cynnyrch sigarét electronig gwell ym mis Ebrill, ac i bob golwg mae'r rhain yn cael effaith positif.

Roedd ystadegau'r carchar yn nodi cynnydd o 50% mewn lefelau trais rhwng 2015 a 2016. Roedd nifer yr ymosodiadau ar garcharorion wedi cynyddu 15%, tra bod nifer yr ymosodiadau ar staff wedi cynyddu 160%. Yn yr un modd, roedd 'y Defnydd o Rym' wedi dangos cynnydd o 320 achos yn y cyfnod rhwng Mehefin 2015 - Mai 2016 i 435 achos ar gyfer y cyfnod rhwng Mehefin 2016 - Mai 2017. Nid oedd y ffigurau ar gyfer 2017 wedi'u casglu hyd yma, ond mae'n bur annhebyg y bydd y ffigurau hyn wedi lleihau.

Yn gyffredinol, roedd ymddygiad treisgar a hunan-niweidio yn gwaethygu. Roedd gwaith y swyddogion Dalfa Mwy Diogel a Lleihau Trais yn bwysig o ran rheoli'r cynnydd hwn, fodd bynnag, rhwng Chwefror a Mehefin 2017, neilltuwyd lleiafswm o 123 awr ar gyfer dyletswyddau eraill o ganlyniad i faterion staffio. Roedd hyn yn destun pryder i'r Bwrdd.

Roeddem yn pryderu fod y cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y carchar yn anghyson ac yn cael eu canslo'n aml. Nid oedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ac mae diffyg presenoldeb hefyd wedi nodi nad ydynt mor flaenllaw bellach. Roedd y Llywodraethwr newydd yn cydnabod hyn ac wedi cymryd rheolaeth trwy gadeirio'r cyfarfod a'i wneud yn flaenoriaeth i staff ei fynychu a darparu agenda mwy hysbïol. Adferwyd y cyfarfod fel digwyddiad misol ag arweinwyr penodedig i oruchwylio'r nodweddion gwarchoddedig.

Diweddarwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau bod staff yn cwmpasu holl nodweddion cydraddoldeb, ac fe ymgynghorwyd â'r cynrychiolwyr o blith y carcharorion er mwyn adrodd ar unrhyw faterion. Roedd Cynrychiolwyr Amrywiaeth o blith y Carcharorion yn weithredol yn y Dderbynfaf ac adeiniau eraill, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â hwy er mwyn nodi unrhyw achosion yng nghyfarfodydd y rheolwyr. Darparwyd crynodeb o'r holl gategoriâu ac ethnigrwydd yn y cyfarfodydd Amrywiaeth i sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o bwy sydd yn y carchar.

Cawsom weld, yn uniongyrchol, amrywiaeth o garcharorion yn cael eu trin yn llawn cydymdeimlad, gan gynnwys carcharor trawsryweddol a oedd yn cyflwyno ceisiadau dyrys ac anodd. Roedd aelodau o staff yn ymdrin â hi yn dosturiol a, chyn belled ag y roedd rheolau'r carchar yn caniatáu, roeddynt yn gwneud pob ymdrech i ddiwallu ei hanghenion. Enghraifft arall oedd achos parhaus a chymhleth yn ymwneud â charcharor gwladolyn tramor a oedd yn cael llawer o amser gan y staff. Ar y cyfan, roedd dynion o dramor yn derbyn gofal da. Roedd anghenion y dynion oedd yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu hadnabod hefyd trwy ddarpariaeth mewn Addysg.

Mae Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd yn hen adeilad Fictoraidd, felly nid yw wedi'i addasu ar gyfer anabledl symudol; er hynny, neilltuwyd safleoedd ar gyfer rhai defnyddwyr cadair olwyn yn ogystal â diwallu eu holl anghenion mewn materion hanfodol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod nad oedd unrhyw lifftiau ac roedd nifer o grisiau. Rhaid rhoi sylw i sicrhau Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng.

Roedd diwrnodau teuluol yn cael eu monitro, ynghyd â'r ymweliadau arbennig yn ymwneud â rôl y tadau. Roedd ymwelwyr yn datgan ymateb gadarnhaol a gwelsom hyfforddiant gweithredol rhagorol gan y staff; roedd yn amlwg fod pawb yn mwynhau'r cyfleuster hwn. Roedd yr ystafell ymweliadau wedi'i haddasu'n sylweddol i ddarparu cyfleusterau chwarae ar gyfer y plant a safleoedd i'r dynion fwynhau cymdeithasu â'u teuluoedd. Roedd y rhaglen addysg hefyd yn diwallu materion teuluol a sgiliau rhianta.

Roedd Bwrdd y Bwrdd Monitro Annibynnol yn cynnwys un aelod o'r grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor i weithredu arferion i gynyddu amrywiaeth, fel rota mwy hyblyg i annog aelodau gweithio iau. Bu aelodau hefyd yn mynychu digwyddiadau yn y mosg lleol a chynhaliwyd ymgyrch i osod posteri mewn canolfannau Islamaidd lleol. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn parhau i gynnwys aelodau hŷn a gwyn gan mwyaf.

Roedd cynnydd sylweddol yn y nifer o Ddyfarniadau yn ymwneud â thorri rheolau'r carchar; roedd y rhain yn bennaf yn gysylltiedig â meddiant/defnyddio 'anterth cyfreithlon', Sbeis, difrodi'r celloedd, ymosodiadau ac anufuddhau i'r drefn gyfreithlon. Cafodd y mwyafrif o'r rhain eu hymdrin yn unol â rheolau'r carchar ac roedd yr achosion mwy difrifol yn cael eu hanfon i'r Dyfarnwr Annibynnol i'w ddedfrydu. Cafodd cymaint â 2413 o droseddau eu hymdrin gan Lywodraethwyr a chafodd 375 o faterion eu cyfeirio i'r Dyfarnwr Annibynnol.

Bu i reolwyr y carchar fabwysiadu agwedd mwy cadarn tuag at ymdrin â sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys cosbau mwy difrifol ar gyfer meddiant. Cyfeiriwyd materion yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon i'r Heddlu yn uniongyrchol oherwydd fod y sancsiwn a ddarparwyd gan y Llysoedd yn llawer mwy na hynny a ddarparwyd ar eu cyfer dan reolau'r carchar.

Roedd y Bwrdd wedi'i fodloni ag amodau, cyfleusterau, cyfundrefn a staffio'r uned. Ymwelwyd â'r uned bob tro roedd aelod ar ddyletswydd ac roedd cyfleusterau ar gyfer siarad â charcharor mewn preifatrwydd, os yn briodol. Roedd y Bwrdd yn cael ei hysbysu'n brydlon ynghylch bob newydd ddyfodiaid ac os nad oedd aelod ar ddyletswydd, gadawyd negeseuon yn swyddfa'r Bwrdd Monitro Annibynnol.

Cafodd ddyddiadau adolygu'r Bwrdd eu nodi'n amlwg yn yr Uned Diogelwch Cymunedol. Roedd aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn gwneud pob ymdrech i fynychu, fodd bynnag, roedd amseru'r Adolygiadau'n afreolaidd a chawsant eu gohirio'n aml. O ganlyniad, ychydig iawn o Adolygiadau a fynychwyd gan y Bwrdd Monitro Annibynnol; yn aml byddai aelodau'n mynychu'r carchar ar gyfer Adolygiad yn benodol, ond yn canfod ei fod wedi'i aildrefnu. Amlygwyd y mater hwn mewn adroddiadau blaenorol. Pan roedd aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn mynychu, roedd yr Adolygiadau'n cael eu penodi a'u cynnal yn gywir.

Roedd ymweliadau beunyddiol y Llywodraethwr bob amser yn adolygu'r ardaloedd cadw i weld p'un a oedd yn bosib i ddychwelyd carcharor i'w lleoliad arferol, a phan roedd yr Uned Diogelwch Cymunedol yn orlawn, dychwelwyd rhai carcharorion addas i'w lleoliad arferol "y tu ôl i ddrysau". Roedd problem gyda carcharorion Rheol 45 a oedd wedi'u lleoli yn yr Uned Diogelwch Cymunedol; cawsant eu hasesu i ddeall pam nad oeddynt yn gallu aros ar yr adeiniau, ond roedd eu presenoldeb yn achosi problemau o ran lleoli carcharorion eraill yn yr Uned Diogelwch Cymunedol.

Roedd aelodau'n aml yn eistedd fel sylwedyddion yn ystod dyfarniadau ac yn ymwybodol o Ganllawiau Cosb Dedfrydau'r Carchar yn ymwneud â throeddau. Cynigiwyd arweiniad i garcharorion yn ymwneud â throeddau. Cynigiwyd arweiniad i garcharorion pe baent yn dymuno apelio yn erbyn dedfryd.

Cafodd protestiadau budr eu trin yn unol â gofynion llym Bio Hazards a Iechyd a Diogelwch a chyhoeddwyd hysbysiadau rhybudd priodol. Bu staff yr Uned Diogelwch Cymunedol yn gwneud ymdrech drwy gydol cyfnod y brotest i annog ddod â'r brotest i ben a chynnig cawod i'r unigolion dan sylw. Roedd cell llety arbennig priodol ar gael ac ychydig iawn o ataliaeth mecanyddol a ddefnyddiwyd yn yr Uned Diogelwch Cymunedol, os o gwbl. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o ataliaethau'n cael eu defnyddio wrth symud carcharor i'r Uned Diogelwch Cymunedol ond nid oeddynt yn ormodol ar unrhyw adeg ac yn cael eu defnyddio mewn achosion lle nad oedd modd lleihau dwysedd y sefyllfa yn unig.

Roedd gwaith ailwampio hir ddisgwylidig yr Uned Diogelwch Cymdeithasol wedi'i gwblhau, er i'r gwaith hynny gymryd dwywaith yn hirach i'w gwblhau na'r disgwyl. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd yr uned ei hadleoli a rhaid canmol y staff a fu'n gweithio'n galed i gynnal y gofal a'r gefnogaeth yn yr uned dros dro.

Cyfarfu'r Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu bob chwarter, dan Gadeiryddiaeth Uwch Llywodraethwr, ac roedd aelod penodedig y Bwrdd Monitro Annibynnol yn mynychu ac yn cyflwyno adroddiad. Roedd y panel hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r Tîm Iechyd Meddwl, Swyddogion yr Adain Gofal Iechyd a'r Gaplaniaeth. Hefyd, cafwyd atgyfeiriadau i'r tîm CARATS (gwasanaethau cwnsela, asesu, atgyfeirio, cynghori a gofal drwy'r broses).



I gloi, roedd y Bwrdd wedi'i fodloni bod yr un uned yn cael ei staffio gan swyddogion profiadol ac wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n darparu cymorth proffesiynol i'r holl garcharorion yn eu gofal.

## 7 LLETY (gan gynnwys cyfathrebu)

---

Roedd nifer o fentrau i wella amgylchedd cyffredinol y manau ar gyfer llety, er enghraifft creu timau paentio. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Llywodraethwr o fewn y trefniadau cytundebol cyffredol, roedd materion llety sylweddol a oedd yn cael effaith negyddol ar safonau gweddusurwydd o fewn y carchar. Nid oedd cyfleusterau'r gawod ar gael am gyfnodau hir neu ddim yn gweithio'n iawn, er enghraifft ar A2, lle roeddynt wedi'u cau am sawl mis. Roedd y cawodydd ar F4 yn camweithio'n aml, neu ddim ar gael am gyfnodau hir. Nid oedd ffenestr yn y cawodydd ar F3 am sawl wythnos. Fe wnaeth y gwaith ailwampio'r Uned Gofal ac Arwahanu gymryd sawl wythnos yn hirach na'r disgwyl, a oedd yn golygu bod yn rhaid i ddynion aros mewn safle heb unrhyw gawodydd am gyfnod dros dro.

Roedd diffyg llenni parhaus o amgylch y toiledau mewn nifer o'r celloedd yn fater gweddusurwydd sylweddol. Roedd problem sylweddol o ran lleithder codi o fewn yr uned Gofal Iechyd, gyda phaent yn pilio oddi ar ddarnau mawr o'r wal a phlaster moel i'w weld. Roedd gwresogi annigonol, lleithder a llwydo yn y celloedd oll yn faterion parhaus yn y gaeaf ar Adain F. Roedd diffyg awyru yn ystafell gadw'r dynion yn yr ardal ymweliadau a theimlai'n llethol mewn tywydd poeth.

Roedd cyflenwi citiau yn faes arall lle roedd problemau parhaus yn arwain at faterion sylweddol o ran gweddusurwydd. Roedd prinder cit ar yr adeiniau'n rheolaidd. Yn aml, nid oedd cynfasau, tyweli, sannau neu chrysau ti y dynion yn cael eu newid bob wythnos.

Roedd staff y carchar yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i brinder staff a gwaith caled ac ymroddiad parhaol y staff oedd yn gyfrifol gan mwyaf am barhad perthnasoedd da a threfn da. Roedd y Llywodraethwr yn weithgar o ran rheoli'r prinder staff o fewn y carchar ac roedd hyn yn cynnwys darparu cyfundrefn ddisgwyliadwy ond cyfyngedig i'r dynion. Fodd bynnag, yn sgil y prinder staff hyn, roedd cyfundrefn y carchar yn gyfyngedig trwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd dynion yn treulio cyfnodau annerbyniol o hir wedi'u cloi yn eu celloedd ac roedd llai o weithgareddau â phwrpas ar gael iddynt.

Roedd trefniadau'r ffreutur yn gweithio'n effeithlon ac roedd y carchar yn weithgar o ran gwneud addasiadau parhaus i'r eitemau sydd ar gael i smygwyr, fel cyfarpar sigarét electronig, mewn ymdrech i leihau'r problemau sy'n codi o ganlyniad i'r gwaharddiad ar smygu. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr aer mewn rhai manau o'r carchar yn broblem parhaus o ganlyniad i smygu sylweddau anghyfreithlon. Roedd y ddarpariaeth fwyd yn dda, ac yn cynnwys dewis o fwydlenni addas. Roedd y carchar yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu bwyd i'r dynion, hyd yn oed pan oedd y gyfundrefn arferol wedi'i amharu.

## 8 GOFAL IECHYD (gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl)

---

Mae'r uned gofal iechyd wedi'i lleoli mewn adeilad deulawr weddol newydd. Roedd problemau sylweddol o ran lleithder yn y waliau, ac ni allai hyn wedi bod yn beth da o ran glanweithdra i'r carcharorion oedd yn sal. Weithiau, roedd gwllâu ar gyfer cleifion mewnol yn cael eu cymryd gan garcharorion a oedd angen llety gwarchoddedig. Cynigiwyd gofal cleifion mewnol ar gyfer y rheiny oedd angen gofal ac arsylwi ar frys.

Roedd y broses o wyllo gwllâu mewn ysbytai allanol yn cael ei bodloni bob amser, ond weithiau roedd hyn yn cael effaith ar gyfundrefn y carchar pe bai angen nifer o staff i wneud hyn; ar y cyfan, roedd yn cael ei reoli'n dda gan In-vision (y Swyddfa Manylion). Cafodd tywyswyr ar gyfer ysbytai allanol eu canslo ar adegau gan y carchar oherwydd prinder staff, a gwnaethpwyd ymdrech i'w hail-drefnu. Roedd cyfradd gwrthod uchel o ran carcharorion oedd yn gwrthod mynychu apwyntiadau, pan roedd angen iddynt lofnodi ymwadiad.

Gan mwyaf, roedd carcharorion yn cael eu gweld yn ystafelloedd ymgynghori'r Meddyg Teulu yn y Ganolfan Gofal Iechyd ar gyfer apwyntiadau a archebwyd ymlaen llaw, ond os oedd angen, byddai'r Meddyg Teulu'n ymweld â'r Adeiniau, yn dibynnu ar yr anghenraid a'r amgylchiadau. Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd 32 allan o 37 clinig y Meddyg Teulu a 3 allan o 3 clinig ar frys y Meddyg Teulu. Roedd y Meddyg Teulu yn ymweld â'r Ward ar gyfer y cleifion mewnol Gofal Iechyd bob wythnos, ac roedd pob un o'r dynion yn cael cyfle i siarad gyda'r Meddyg Teulu. Roedd y Meddyg Teulu'n mynychu'r Uned Gofal Cymdeithasol deirgwaith yr wythnos i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dynion oedd yn cael eu lleoli yno.

Roedd galw sylweddol am ofal seiciatrig, ond nid oedd lefelau'r staff yn bodloni'r galw hwn. Un nyrs gofal sylfaenol yn unig oedd ar gael ac roedd rhestr hir o ddynion yn aros i gael eu gweld ar gyfer asesiad cychwynnol; ni chafodd nifer o ddynion eu hasesu cyn pen 28 diwrnod, oherwydd eu bod yn gadael y carchar cyn cael sylw. Cynhaliwyd tri clinig seiciatrig bob wythnos gydag apwyntiadau a oedd yn cael eu harchebu ymlaen llaw; gwelwyd uchafswm o 21 o ddynion ym mhob un o'r clinigau hyn. Roedd y seiciatrydd hefyd yn adolygu ei gleifion bob wythnos yn yr uned cleifion mewnol Gofal Iechyd. Yr amser aros hiraf ar gyfer apwyntiad seiciatrig oedd 8 wythnos, ond roedd unrhyw garcharor â salwch difrifol yn cael ei weld ar yr un diwrnod. Roedd y seicotherapydd o fewn cyrraedd yn gweld dynion ar yr adeiniau teirgwaith bob wythnos, er bod amseroedd aros yn para hyd at 4 mis. Nid oedd unrhyw fewnbwn Seicolegol.

Roedd cwota llawn o optegwyr. Cynhaliwyd clinigau bob mis. Cynhaliwyd 8 allan o 14 clinic Deintyddol ym mis Awst. Roedd y deintydd parhaol wedi gadael ac roedd penodi'r deintydd newydd yn ei lle wedi'i oedi oherwydd problemau fetio. Roedd deintydd newydd rhan amser wedi cymryd ei lle dros dro, ond o ganlyniad roedd y carchar wedi methu 17 o sesiynau. Roedd cysylltiadau da gyda'r ysbyty deintyddol leol.

Cynigiwyd Sgrinio Derbyn Newydd, Sgrinio Iechyd Eilaidd a sgrinio BBV i bob garcharor a oedd yn cyrraedd CEM Caerdydd, o bosib o fewn 72 awr o gyrraedd. Fis Awst, cynhaliwyd pedwar allan o chwe clinig BBV. Roedd rhai o'r cleifion yn gwrthod y sgrinio. Gwnaed cyfeiriadau i Ofal Cymdeithasol a gallai asesiad gymryd hyd at 14 niwrnod. Rhoddwyd taflenni Gofal Iechyd i bob garcharor a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud cwyn.

Roedd perthnasoedd rhwng y darparwyr Iechyd a'r comisiynwyr yn dda gyda chyfathrebu effeithlon a hyblyg. Enillodd y staff Gofal Iechyd ddwy wobwr yn ystod y deuddeg mis diwethaf; un am ofal lliniarol, a rannwyd gyda thîm o nyrsys rhanbarthol lleol, a'r llall ar gyfer lleoliadau myfyrwyr llwyddiannus.

Sefydlwyd grŵp misol ar gyfer Cyn-filwyr. Bu i nifer o elusennau sefydlu cysylltiadau gyda'r rheiny oedd yn mynychu'r grŵp i gynnig cefnogaeth a gwasanaethau Trwy'r Giât, gan gynnwys Y Lleng Brydeinig, Help for Heroes, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA), a Hire a Hero.

Roedd CEM Caerdydd yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Yn ystod yr ymweliadau monitro i'r ystafelloedd a gweithdai addysgu, gwelwyd amgylchedd cadarnhaol a pherthnasoedd da rhwng y tiwtoriaid a'r dynion bob amser. Roedd y trosiant parhaus o ddynion yn y carchar, lefelau isel o gyraeddiadau blaenorol a nifer cynyddol o ddynion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflwyno her barhaus, ond roedd y materion hyn yn cael eu hymdrin yn dda. Roedd yr dosbarthiadau addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a welwyd yn llawn dychymyg.

Roedd y carchar yn parhau i geisio diwallu anghenion poblogaeth amrywiol y carchar drwy gynnig darpariaeth newydd. Roedd y cwrs Materion Teuluol newydd yn canolbwyntio ar faterion fel rhianta, cyllidebu teuluol a rheoli dicter. Da oedd gweld paentio ac arlunio'n cael eu hailgyflwyno hefyd trwy'r cwrs Llythrennedd Creadigol. Nodwyd y diffyg darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol mewn adroddiadau blaenorol, ac roedd yn galonogol gweld y safon uchel o waith a oedd yn cael ei gynhyrchu, a bwriadwyd arddangos y gwaith hwn o amgylch y carchar.

Roedd y nifer o weithgareddau a oedd yn cynnig cymwysterau'n destun adolygiad parhaus. Un o faterion y carchar oedd bod hyd y dedfrydau yng Nghaerdydd yn weddol fyr ar gyfartaledd. Roedd cyfradd trosiant y carcharorion yn creu her o ran sefydlu cyrsiau oedd yn ddigon hir a chyda chynnwys digonol i gymhwyso ar gyfer ardystio. Ymdriniwyd â'r mater hwn gyda pheth llwyddiant drwy strwythuro cyrsiau o amgylch modiwlau byr.

Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau'r staff, roedd y gyfundrefn gyfyngedig, a oedd wedi'i gweithredu trwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn, yn cael effaith negyddol sylweddol ar y ddarpariaeth. Roedd cyrsiau rhan amser, ac o bryd i'w gilydd dynion yn mynychu'r cyrsiau'n afreolaidd, yn ei wneud yn anodd dros ben i fwrw ymlaen gyda datblygiadau arfaethedig ac i gyflawni'r deilliannau disgwylidig. Roedd y gyfundrefn gyfyngedig hefyd yn effeithio ar agweddau sawl un o'r dynion tuag at addysg ac hyfforddiant yn y carchar, ac o ganlyniad yn lleihau'r diddordeb ac yn gwanhau'r ysgogiad. Yn ystod nifer o ymweliadau monitro'r Bwrdd, roedd y presenoldeb ar y cyrsiau hyn yn ffracsiwn o'r nifer oedd wedi cofrestru ar eu cyfer. Ar 14<sup>eg</sup> Hydref 2016, 12 o ddynion yn unig oedd yn bresennol mewn cyrsiau ar y coridor Addysg gyfan a chyn lleiad a 2 allan o 9 dyn oedd mewn Ymsefydlu. Ar 6<sup>ed</sup> Chwefror 2017, roedd 7 allan o 23 o ddynion yn mynychu Gweithdy 5 ac roedd 2 allan o 5 yn mynychu Gweithdy 3. Ar 2<sup>ail</sup> Mai 2017, roedd cyn lleiad â 23 allan o 42 o ddynion yn bresennol ar y coridor Addysg, 5 allan o 12 mewn Cerdd a dim ond 5 allan o 20 o ddynion mewn Ymsefydlu.

Roedd cynlluniau clir ar waith ar gyfer dychwelyd i gyfundrefn lawn erbyn diwedd y cyfnod adrodd.

Roedd y carchar yn cynnig yr amrywiaeth arferol o weithgareddau, er enghraifft glanhau'r adain a gwaith cegin, yn ogystal â pheccynu brecwast, siop beic, golchdy, ailgylchu, timau paentio a garddio. Yn ogystal â hyn, roedd cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau fel swyddog addysg, cynghorwr cymheiriaid, gwrandawr a swyddog y gampfa. Roedd y carchar yn ymdrechu i gyflawni dosbarthiad llawn o weithgareddau â phwrpas ac yn gweithredu cynllun a oedd yn rhoi tri cyfle i ddynion ganfod gwaith neu weithgaredd yr oeddynt yn fodlon eu mynychu. Pe bai'r gwaith yn cael ei wrthod ar ddau achlysur, byddai aelod o staff yr Hwb Gweithgareddau'n siarad â hwy ac yn cynnig un o'r rolau oedd ar gael iddynt.

Roedd y cyrsiau galwedigaethol yn parhau i fod yn gryfder o fewn y carchar. Roedd cyrsiau Network Rail yn boblogaidd a chynhaliwyd rhaglen ym mis Ebril 2017. Bu i 9 o ddynion gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, a chynigiwyd cyflogaeth i bob un ohonynt wedi iddynt gael eu rhyddhau. Roedd y carchar yn bwriadu cynnal rhaglen arall a fyddai'n dechrau ym mis Hydref 2017. Roedd gweithdai cynnal a chadw beiciau a thrwsio ceir yn boblogaidd hefyd, ac roedd y naill weithdy yn cynnig cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiant. Roedd cyrsiau eraill, fel BICS a chynnal a chadw'r strydoedd hefyd yn darparu hyfforddiant a thystysgrifau a oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth yn uniongyrchol.

Roedd yr Hwb Gweithgareddau yn monitro ac yn adrodd ar gyfraddau'r ymrwymiad. Roedd mwy na 90% o'r dynion yn ymgymryd â gweithgareddau â phwrpas yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhesymau am beidio gymryd rhan mewn gweithgareddau, neu achosion o garcharorion yn cael eu gwahardd ohonynt, yn cael eu montiro a'u hadrodd ac roedd y lefelau o absenoldeb annerbyniol yn isel iawn ar y cyfan (tua 0.5%).

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd ffair gyflogaeth â phartneriaid er mwyn ceisio cryfhau'r cysylltiadau gyda busnesau a cholegau lleol. Roedd y carcharorion yn cael y cyfle i ofyn am gyfleoedd gwaith a threfnu cyfweiliadau dilynol wedi iddynt gael eu rhyddhau, ac i bob golwg roedd y dynion yn croesawu'r cyfleoedd hyn. Y bwriad yw ailadrodd hyn yn fwy rheolaidd. Roedd asesiad dilynol o lwyddiant y diwrnod wrthi'n cael ei gynnal.

Roedd argaeledd cyrsiau'r Gampfa wedi peidio i ryw raddau yn gynnar yn y flwyddyn oherwydd y pwysau ar y gyfundrefn, ond da oedd gweld bod hyn wedi cynyddu eto ers mis Mehefin. Roedd niferoedd uchel iawn yn mynychu'r gampfa ar gyfer cylchedau a chodi pwysau (ac, ar adegau, pêl-droed) ac o ganlyniad roedd y gweithgareddau hyn bron yn llawn, fel a welwyd ym mis Medi. Roedd yn gadarnhaol hefyd i weld pwyslais cynyddol ar weithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar 'sgiliau mwy meddal'. Roedd Gweithdy Offer ar gyfer Newid yn rhoi'r cyfle i ddynion archwilio eu hagweddau a'u credoau gyda'r nod o ddatblygu ymagweddau mwy iach ar gyfer sefyllfaoedd beunyddiol. Roedd yn ymdrin â rheoli dicter, hunan-barch a datrys anghydfodau ynghyd â phynciau eraill. Roedd y cwrs hwn yn cael ei gynnal trwy gydol y flwyddyn ac yn llawn fel arfer.

Cyflwynwyd hyfforddiant Cynorthwywyr Medrus o'r newydd ar gyfer y cynghorwyr cymheiriaid. Roedd hyn yn darparu sgiliau mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, mentora ac ymwybyddiaeth o adsefydlu cyffuriau ac alcohol. Roedd y grŵp cyntaf o ddeuddeg dyn wedi dechrau ar y cwrs hwn, a allai arwain at NVQ lefel 3.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y gyfundrefn gyfyngedig yn cael effaith ddifrifol ar gyfran fawr o'r ddarpariaeth hon a bod cryn dipyn o'r ddarpariaeth yn cael ei gweithredu'n rhan amser.

Roedd Rheoli Troseddwy CEM Caerdydd yn anghyson yn sgil y prinder staff yn ogystal â'r staff yn cael eu hadleoli i fannau eraill y carchar. Roedd disgwyl i'r Rheolwyr Troseddwyr weld pob carcharor wrth iddynt gyrraedd, sef tua 400 o garcharorion bob mis. Roedd y trosiant cyson hwn yn arwain at gyfathrebu gwael rhwng y Rheolwyr Troseddwyr a'r carcharorion. Cafodd contract newydd ei wobrwyo ym mis Ebrill a'r gobaith oedd y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r materion ariannol.

O ganlyniad i brinder staff a'r swm fawr o waith, ni wnaeth rai carcharorion fyth dderbyn cynllun dedfryd, fodd bynnag roedd yr hynny a gofnodwyd o ansawdd da.

Roedd y 'Llwybrau tuag at Leihau Aildroseddu' yn wael, ac nid oedd lawer o bwyslais ar ei bwysigrwydd. Roedd y staff yn frwdfrydig iawn, ond roedd diffyg adnoddau amlwg a phrinder staff unwaith eto.

Nid oedd y cyngor a'r cymorth cyn rhyddhau gystal ag y dylai fod, er bod St Giles yn gweld pob carcharor. Nid oedd yr un cynrychiolydd o'r Swyddfa Budd-daliadau ar y safle. Rhoddwyd rhestr o rifau ffôn i'r dynion i'w ffonio i gael cymorth. Roedd angen mwy o gyngor tai ar gyfer y rheiny oedd yn ddi-gartref – a chynigiwyd hostel i'r rhain neu eu cynghori i ymweld â'u Awdurdod Tai Lleol. Roedd PACT ac elusennau eraill yn cynnig gwasanaeth casglu 'wrth y giât', a oedd yn gymorth mawr i'r dynion mwyaf bregus.

Roedd cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Prawf, Adsefydlu Cymunedol a staff y Carchar yn dda, a chynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd i ddiweddarau'r grŵp am fentrau newydd. Roedd Ymddiriedolaeth St Giles yn gweld pob carcharor yn ystod eu dedfryd, ond oherwydd y trosiant o fewn y carchar, roedd hyn gyfwerth â 400 o garcharorion bob mis. Roedd swyddog tai arbenigol ar gael ac, ers mis Ebrill, aelod o staff o'r Ganolfan Byd Gwaith a oedd yn gweithio gyda'r Gweithwyr Achosion.

Roedd PACT yn cynnal diwrnodau i'r teulu, grwpiau babanod a digwyddiad Nadolig i'r plant er mwyn annog cysylltiadau â theuluoedd. Yn anffodus, cafodd cyllideb PACT ei lleihau eleni ac nid ydym wedi gweld pa effaith fydd hyn yn ei chael hyd yma.

## C Adran – Gwaith y Bwrdd

---

<b>YSTADEGAU'R BWRDD</b>	
Y Nifer o Aelodau a Argymhellir ar y Bwrdd	17
Y nifer o aelodau ar y Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	8
Y nifer o aelodau ar y Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	11
Cyfanswm y nifer o ymweliadau â'r Sefydliad	511
Cyfanswm y nifer o adolygadiau arwahanu yr aethpwyd iddynt	30

Cod	Pwnc	Y flwyddyn adrodd gyfredol	Y flwyddyn adrodd flaenorol
A	Llety gan gynnwys y golchdy, dillad, ymolchi	5	10
B	Disgyblaeth gan gynnwys dyfarniadau, Cynllun Addysg Unigol, sancsiynau	1	14
C	Cydraddoldeb	4	9
D	Gweithgaredd â Phwrpas gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, y gyfundrefn, amser allan o'r gell	25	37
E 1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	21	39
E 2	Cyllid gan gynnwys tâl, arian preifat, gwario	23	11
F	Bwyd a cheginau	9	14
G	Iechyd gan gynnwys gofal corfforol, meddwl a chymdeithasol	38	56
H 1	Eiddo o fewn y sefydliad hwn	14	17
H 2	Eiddo wrth drosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall	12	8
H 3	Y ffreutur, rhestr o gyfleusterau, catalog(au)	12	8
I	Rheoli'r Ddedfryd yn cynnwys Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail gategoreiddio	26	23
J	Pryderon staff/carcharorion yn cynnwys bwlio	26	18
K	Trosglwyddiadau	35	26



	<b>Cyfanswm y nifer o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol</b>	332	384
--	--	-----	-----